**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR LEOEDD AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (DIWYGIAD RHIF ---) 202-**

**HYSBYSIR, DRWY HYN,** fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor"), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, yn bwriadu gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (2), 4,124(1) a Rhan IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, a'i effaith fydd diwygio'r cyfyngiadau canlynol yng ngorchymyn (GWAHARDD A CHYFYNGU AR LEOEDD AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 2024 ("y Gorchymyn Cydgrynhoi"), fel y'i diwygiwyd, drwy fewnosod Cynllun Gorchymyn AG59, a bydd effaith hyn fel y nodir yn yr Atodlen isod. Rhaid anfon gwrthwynebiadau neu sylwadau i'r cynigion, ynghyd â'r rhesymau drostynt, yn ysgrifenedig at y llofnodwr isod gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod neu drwy anfon e-bost at traffictransportation@bridgend.gov.uk, erbyn **05/03/2026.** Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys y Gorchymyn arfaethedig, y Cynlluniau a Datganiad o Reswm y Cyngor dros wneud y Gorchymyn, ar gael drwy gysylltu â naill ai traffictransportation@bridgend.gov.uk neu dros y ffôn drwy'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid (Ffôn**:** 01656 646363 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001-1678)) neu o'r Dderbynfa Ddinesig yn y cyfeiriad a roddir isod yn ystod oriau swyddfa neu gellir ei archwilio ar-lein ar: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.Os cewch unrhyw anhawster wrth ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes angen yr hysbysiad mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod neu drwy gysylltu â'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid (Ffôn: 01656 643643, cyfeirnod cyfreithiol TRA001-1678). Noder y gall y Cyngor ystyried pob sylw a dderbynnir yn gyhoeddus a bod cynnwys unrhyw sylw ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

**ATODLEN**

**1. CYFLWYNO'R CYFYNGIAD SY'N GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG**

**Clos Wyndham, Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr**

(i) Ar ei ochr ogleddol o bwynt 55 metr (60 llath) i'r dwyrain o bwynt gyferbyn ag ochr dde-ddwyreiniol ei gyffordd â Heol Ffaldau, tua'r gorllewin ac yna i'r gogledd am bellter o 114 metr (125 llath).

(ii) Ar ei ochr ddeheuol, o'r gyffordd ag ochr ogledd-orllewinol Heol Ffaldau, i gyfeiriad y gogledd-orllewin, am bellter o oddeutu 38 metr (42 llath).

(iii) Ar ei ochr ddeheuol, o'r gyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Heol Ffaldau, i gyfeiriad y dwyrain, am bellter o oddeutu 57 metr (62 llath).

**Heol Ffaldau, Ystad Ddiwydiannol Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr**

(i) Ar ei hochr ogledd-orllewinol, o'r gyffordd â Chlos Wyndham, i gyfeiriad y de-orllewin, am bellter o oddeutu 40 metr (44 llath).

(ii) Ar ei hochr dde-orllewinol, o'r gyffordd â Chlos Wyndham, i gyfeiriad y de-orllewin, am bellter o oddeutu 43 metr (47 llath).

**Dyddiedig: 05/02/2026**

K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.
K Watson, Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB